| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **21 MEHEFIN, 2012** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau'r Cyngor** |
| **AWDUR** | **Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cynhaliwyd isetholiad yn Ward Bryncrug / Llanfihangel ar 14 Mehefin, 2012 pryd yr etholwyd y Cynghorydd Beth Lawton, aelod o'r Grŵp Annibynnol ar y Cyngor.

1.2 O ganlyniad mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 37 |
| Annibynnol | 18 |
| Llais Gwynedd | 14 |
| Llafur | 4 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 2 |
| **Cyfanswm** | **75** |

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei wneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

2.4 Gofynnwyd i Grŵp Busnes y Cyngor gyfarfod i drafod y mater er cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Llawn a chyfarfu'r Grŵp Busnes ar 19 Mehefin, 2012.

2.5 Mae'r newid yn y cydbwysedd gwleidyddol yn golygu bod y Grŵp Annibynnol yn ennill dwy sedd, un ar y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau a'r llall ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, ar draul y Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol sy'n colli sedd ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.

2.6 Golyga hefyd bod Grŵp Llais Gwynedd yn ennill sedd ar y Pwyllgor Trwyddedu.

2.7 Bod Grŵp Plaid Cymru yn ennill sedd ar y Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig.

2.8 Hefyd bod Grŵp Plaid Cymru yn colli sedd ar y Pwyllgor Cynllunio ac yn ennill sedd ar Bwyllgor Apelau Cyflogaeth tra bod y Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Cynllunio ac yn colli sedd ar Bwyllgor Apelau Cyflogaeth.

(gweler **Atodiad A**)

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Cyngor newid dyraniad y seddau ar y pwyllgorau fel y noder yn 2.5 i 2.8 uchod sef bod y Grŵp Annibynnol yn ennill dwy sedd, un ar y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau a'r llall ar y Pwyllgor Democratiaeth, tra bod Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol yn colli sedd ar y Pwyllgor Democratiaeth; bod Grŵp Llais Gwynedd yn ennill ar y Pwyllgor Trwyddedu; bod Grŵp Plaid Cymru yn ennill sedd ar y Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig a Phwyllgor Apelau Cyflogaeth ac yn colli sedd ar y Pwyllgor Cynllunio tra bod y Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Cynllunio ac yn colli sedd ar Bwyllgor Apelau Cyflogaeth.

**ATODIAD A**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol |
|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 |
| Cymunedau | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 |
| Gwasanaethau | 9 | 5 | 3 | 1 | |
| Archwilio | 9 | 4 | 4 | 1 | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 7 | 4 | 3 | 1 | |
| Cynllunio | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Trwyddedu Canolog | 7 | 4 | 4 | | |
| Iaith | 8 | 4 | 3 | | |
| Penodi Prif Swyddogion | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 1 | 1 | 1 | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y seddau** | **76** | **37** | **29** | **8** | **4** | **154** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol |
|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 3 | 2 | 1 | | 1 |
| CYSAG | 3 | 2 | 2 | | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 2 | 2 | 1 | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 4 | 2 | 1 | | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 2 | 1 | 1 | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Seddau** | **96** | **47** | **36** | **10** | **5** | **194** |